OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 623 (Cy. 102)

2025 No. 623 (W. 102)

TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD, CYMRU

TRANSPORT AND WORKS, WALES

Gorchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Trosglwyddo) 2025

The Brecon Mountain Railway (Transfer) Order 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn galluogi trosglwyddo'r pwerau a'r rhwymedigaethau statudol yng Ngorchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Rheilffordd Ysgafn) 1980 oddi wrth Brecon Mountain Railway Company Limited i Vale of Rheidol Railway Limited.

Gellir archwilio copïau o'r planiau a adneuwyd y cyfeirir atynt yn erthygl 2(3) o'r Gorchymyn yn swyddfeydd y Perchennog yng Ngorsaf Pant, Pontsticill, Merthyr Tudful, Cymru, CF48 2UP.

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi adeiladu gweithfeydd.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order enables the transfer of the powers and statutory obligations in the Brecon Mountain Railway (Light Railway) Order 1980 from the Brecon Mountain Railway Company Limited to the Vale of Rheidol Railway Limited.

Copies of the deposited plans referred to in article 2(3) of the Order may be inspected at the offices of the Owner at Pant Station, Pontsticill, Merthyr Tydfil, Wales, CF48 2UP.

This Order does not authorise the construction of works.

2025 Rhif 623 (Cy. 102)

TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD, CYMRU

Gorchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Trosglwyddo) 2025

Gwnaed *27 Mai 2025*

Yn dod i rym *5 Mehefin 2025*

Mae cais wedi ei wneud i Weinidogion Cymru yn unol â Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006(**1**) am Orchymyn o dan adrannau 1 a 5 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992(**2**) ("Deddf 1992").

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gwneud Gorchymyn i roi effaith i'r cynnig a gynhwysir yn y cais gydag addasiadau nad ydynt ym marn Gweinidogion Cymru yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnig.

Cyhoeddwyd hysbysiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru yn y London Gazette ar 23 Mai 2025.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1 a 5 o Ddeddf 1992, a pharagraffau 1, 8, 12, 15 ac 17 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

(**1**) O.S. 2006/1466, a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/439, O.S. 2011/2085, O.S. 2012/147, O.S. 2012/2590 ac O.S. 2013/755.

(**2**) 1992 p. 42. Diwygiwyd adran 1 gan baragraffau 51 a 52 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29). Diwygiwyd adran 5 gan O.S. 2012/1659.

(**3**) Mae pwerau o dan adrannau 1 a 5 o'r Ddeddf, a pharagraffau 8, 15 ac 16 o Atodlen 1 iddi, bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Roedd y pwerau wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), cawsant eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

2025 No. 623 (W. 102)

TRANSPORT AND WORKS, WALES

The Brecon Mountain Railway (Transfer) Order 2025

Made *27 May 2025*

Coming into force *5 June 2025*

An application has been made to the Welsh Ministers in accordance with the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2006(**1**) for an Order under sections 1 and 5 of the Transport and Works Act 1992(**2**) ("the 1992 Act").

The Welsh Ministers have decided to make an Order giving effect to the proposal comprised in the application with modifications which in the opinion of the Welsh Ministers do not make any substantial change in the proposals.

Notice of the Welsh Ministers' decision was published in the London Gazette on 23 May 2025.

Accordingly, the Welsh Ministers in exercise of the powers conferred by sections 1 and 5 of, and paragraphs 1, 8, 12, 15 and 17 of Schedule 1 to the 1992 Act, now exercisable by them (**3**), make the following Order.

(**1**) S.I. 2006/1466, amended by S.I. 2010/439, S.I. 2011/2085, S.I. 2012/2590 and S.I. 2013/755.

(**2**) 1992 c. 42. Section 1 was amended by paragraphs 51 and 52 of Schedule 2 to the Planning Act 2008 (c. 29). Section 5 was amended by S.I. 2012/1659.

(**3**) Powers under sections 1 and 5 of, and paragraphs 8, 15 and 16 of Schedule 1 to the 1992 Act are now vested in the Welsh Ministers so far as they are exercisable in relation to Wales. They were previously vested in the National Assembly for Wales by virtue of article 2 and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32) they were transferred to the Welsh Ministers.

Rhan 1

Rhagarweiniad

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Trosglwyddo) 2025 a daw i rym ar 5 Mehefin 2025.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Dyddiad Trosglwyddo" ("*the Transfer Date*"), mewn perthynas â'r rheilffordd, yw'r dyddiad y mae'r teitl yn trosglwyddo o'r Perchennog i'r Ymgymerwr o dan erthygl 3 (trosglwyddo'r rheilffordd i'r Ymgymerwr);

ystyr "y Gorchymyn Gwreiddiol" ("*the Original Order*") yw Gorchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Rheilffordd Ysgafn) 1980(**1**);

ystyr "y Perchennog" ("*the Owner*") yw Brecon Mountain Railway Company Limited, cwmni a ymgorfforwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1967 (rhif cwmni 01409791) fel cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, gyda'i swyddfa gofrestredig yng Ngorsaf Pant, Ponsticill, Merthyr Tudful, Cymru, CF48 2UP;

ystyr "y rheilffordd" ("*the railway*") yw'r rheilffordd a adnabyddir fel 'Rheilffordd Fynydd Aberhonddu' ('Brecon Mountain Railway') sef rheilffordd 8,720 metr o hyd, neu oddeutu hynny, yn cynnwys twnnel sy'n cychwyn yn Sir Merthyr Tudful ar gyfeirnod map SO 059097 ac yn terfynu yn Sir Powys ar gyfeirnod map SO 059170;

ystyr "y Trosglwyddai" ("*the Transferee*") yw unrhyw berson y mae'r rheilffordd, neu unrhyw ran o'r rheilffordd, yn cael ei phrydlesu neu ei gwerthu iddo o dan y pwerau a roddir gan erthygl 4 (trosglwyddo'r rheilffordd gan Ymgymerwr);

ystyr "yr Ymgymeriad a Drosglwyddir" ("*the Transferred Undertaking*") yw cymaint o'r rheilffordd a brydlesir neu a werthir o dan y pwerau a roddir gan y Gorchymyn hwn;

ystyr "yr Ymgymerwr" ("*the Undertaker*") yw Vale of Rheidol Railway Limited, cwmni a ymgorfforwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1985 (rhif cwmni 02188631) fel cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, gyda'i swyddfa gofrestredig yng Nghoedlan y Parc, Aberystwyth, Ceredigion, Cymru SY23 1PG.

(**1**) O.S. 1980/671.

PART 1

Preliminary

Title and commencement

1. The title of this Order is the Brecon Mountain Railway (Transfer) Order 2025 and it comes into force on 5 June 2025.

Interpretation

2.—(1) In this Order—

"the Original Order" ("*y Gorchymyn Gwreiddiol*") means The Brecon Mountain Railway (Light Railway) Order 1980(**1**);

"the Owner" ("*y Perchennog*") means the Brecon Mountain Railway Company Limited, a company incorporated under the Companies Act 1967 (company number 01409791) as a company limited by shares, whose registered office is at Pant Station, Pontsticill, Merthyr Tydfil, Wales, CF48 2UP;

"the railway" ("*y rheilffordd*") means the railway known as the 'Brecon Mountain Railway' which is a railway 8,720 meters or thereabouts in length including a tunnel commencing in the County of Merthyr Tydfil at reference point SO 059097 and terminating in the County of Powys at reference point SO 058170;

"the Transfer Date" ("*y Dyddiad Trosglwyddo*") means in relation to the railway, the date on which title passes from the Owner to the Undertaker under article 3 (transfer of railway to Undertaker);

"the Transferee" ("*y Trosglwyddai*") means any person to whom the railway, or any part of the railway, is leased or sold under the powers conferred by article 4 (transfer of railway by Undertaker);

"the Transferred Undertaking" ("yr Ymgymeriad a Drosglwyddir") means so much of the railway as is leased or sold under the powers conferred by this Order;

"the Undertaker" ("*yr Ymgymerwr*") means the Vale of Rheidol Railway Limited, a company incorporated under the Companies Act 1985 (company number 02188631) as a company limited by shares and whose registered office is at Park Avenue, Aberystwyth, Ceredigion, Wales, SY23 1PG.

(**1**) S.I. 1980/671.

(2) Brasgywir yw'r holl hydoedd a chyfeiriadau a nodir mewn unrhyw ddisgrifiad o'r rheilffordd.

(3) Dehonglir cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at bwyntiau mewn llythrennau, neu lythrennau a rhifau, fel cyfeiriadau at bwyntiau ar y planiau a adneuwyd gyda'r Gorchymyn Gwreiddiol ac sydd ar gael i'w harchwilio yng Ngorsaf Pant, Pontsticill, Merthyr Tudful, Cymru CF48 2UP.

(4) Mae unrhyw ddeddfiadau yr awdurdodwyd adeiladu, cynnal a chadw, defnyddio a gweithredu'r rheilffordd ynddynt yn parhau i gael effaith yn ddarostyngedig i'r Gorchymyn hwn.

(2) All lengths and directions stated in any description of the railway are approximate.

(3) References in this Order to points by letters, or letters and numbers are construed as references to points on the plans deposited with the Original Order and available for inspection at Pant Station, Ponsticill, Merthyr Tydfil, Wales, CF48 2UP.

(4) Any enactments by which the construction, maintenance, use and operation of the railway were authorised continue to have effect subject to this Order.

Rhan 2

Trosglwyddo a gweithredu'r rheilffordd

Trosglwyddo'r rheilffordd i'r Ymgymerwr

3.—(1) Caiff y Perchennog a'r Ymgymerwr ymrwymo i gytundebau, bod yn barti i gytundebau a rhoi effaith i gytundebau sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo i'r Ymgymerwr, a breinio ynddo, yr holl deitl hwnnw, yr holl hawliau hynny, yr holl fuddiannau hynny a'r holl bwerau hynny a all fod ganddo yn y rheilffordd neu mewn perthynas â'r rheilffordd.

(2) Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Gorchymyn hwn, o'r Dyddiad Trosglwyddo ymlaen—

(a) mae'r rheilffordd neu unrhyw ran ohoni yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r holl ddarpariaethau a chydsyniadau statudol a'r holl ddarpariaethau a chydsyniadau eraill sy'n gymwys i'r rheilffordd ar y dyddiad hwnnw (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n parhau mewn bodolaeth ac yn gallu cael effaith), a

(b) mae'r Ymgymerwr, gan eithrio'r Perchennog—

(i) â'r hawl i gael budd o'r holl hawliau, yr holl bwerau a'r holl freintiau sy'n ymwneud â'r rheilffordd neu unrhyw ran ohoni ac arfer yr holl hawliau, yr holl bwerau a'r holl freintiau hynny, a

(ii) yn ddarostyngedig i bob rhwymedigaeth, statudol neu fel arall, sy'n ymwneud â'r rheilffordd neu unrhyw ran ohoni (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n parhau mewn bodolaeth ac yn gallu cael effaith) i'r bwriad y bydd y perchnogion yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd o bob un o'r rhwymedigaethau.

Part 2

Transfer and operation of the railway

Transfer of the railway to the Undertaker

3.—(1) The Owner and the Undertaker may enter into and be party to and carry into effect agreements providing for the transfer to, and vesting in, the Undertaker of all such title, rights, interests and powers as it may have in or in respect of the railway.

(2) Except as may be otherwise provided in this Order, as from the Transfer Date—

(a) the railway or any part of it continues to be subject to all statutory and other provisions and consents applicable to the railway at that date (in so far as those provisions are still subsisting and capable of taking effect), and

(b) the Undertaker is to the exclusion of the Owner—

(i) entitled to the benefit of, and to exercise, all rights, powers and privileges relating to the railway or any part of it, and

(ii) subject to all obligations, statutory or otherwise, relating to the railway or any part of it (in so far as those provisions are still subsisting and capable of taking effect) to the intent that the Owners shall simultaneously be released from all such obligations.

Trosglwyddo'r rheilffordd gan yr Ymgymerwr

4.—(1) Ar unrhyw adeg ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo caiff yr Ymgymerwr, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, werthu neu brydlesu'r rheilffordd, neu ran ohoni, i unrhyw Drosglwyddai ar y telerau ac amodau hynny y gellir cytuno arnynt rhwng yr Ymgymerwr a'r Trosglwyddai.

(2) Ac eithrio fel y darperir fel arall gan y Gorchymyn hwn:

(a) bydd yr Ymgymeriad a Drosglwyddir yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r holl ddarpariaethau statudol neu ddarpariaethau eraill sy'n gymwys iddo ar ddyddiad y brydles neu'r gwerthiant (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n parhau mewn bodolaeth ac yn gallu cael effaith), a

(b) mae'r Trosglwyddai, gan eithrio'r Ymgymerwr—

(i) â'r hawl i gael budd o'r holl hawliau, yr holl bwerau a'r holl freintiau sy'n gymwys i'r Ymgymeriad a Drosglwyddir ac arfer yr holl hawliau, yr holl bwerau a'r holl freintiau hynny, a

(ii) yn ddarostyngedig i bob rhwymedigaeth, statudol neu fel arall, sy'n ymwneud â'r Ymgymeriad a Drosglwyddir (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n parhau mewn bodolaeth ac yn gallu cael effaith) gyda'r bwriad bod yr Ymgymerwr yn cael ei ryddhau o bob rhwymedigaeth o'r fath.

(3) Pan fo cytundeb wedi ei wneud yn rhinwedd paragraff (1), bydd cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at yr Ymgymerwr yn cynnwys cyfeiriadau at y Trosglwyddai.

(4) Mae paragraffau (1), (2) a (3) yn cael effaith tra pery unrhyw brydles a roddir ac o ddyddiad gweithredol unrhyw werthiant, o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon.

Pŵer i weithredu a defnyddio'r rheilffordd

5.—(1) Ar ac ar ôl y dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym, caiff yr Ymgymerwr neu'r Trosglwyddai, yn ôl y digwydd, weithredu a defnyddio'r rheilffordd fel system drafnidiaeth, neu ran o system drafnidiaeth, ar gyfer cludo teithwyr.

(2) Caiff yr Ymgymerwr fynnu, cymryd ac adennill neu hepgor y cyfryw daliadau am gludo teithwyr ar y rheilffordd, neu am unrhyw wasanaethau neu unrhyw gyfleusterau a ddarperir mewn cysylltiad â gweithredu'r rheilffordd, fel y gwêl yn dda.

Transfer of the railway by Undertaker

4.—(1) At any time after the Transfer Date the Undertaker may, with the consent of the Welsh Ministers, sell or lease the railway, or part of it, to any Transferee on such terms and conditions as may be agreed between the Undertaker and the Transferee.

(2) Except as may be otherwise provided by this Order—

(a) the Transferred Undertaking will continue to be subject to all statutory or other provisions applicable to it at the date of the lease or sale (in so far as those provisions are still subsisting and capable of taking effect), and

(b) the Transferee is, to the exclusion of the Undertaker—

(i) entitled to the benefit of, and to exercise, all rights, powers and privileges applicable to the Transferred Undertaking, and

(ii) subject to all obligations, statutory or otherwise, relating to the transferred undertaking (in so far as those provisions are still subsisting and capable of taking effect) to the intent that the Undertaker is released from all such obligations.

(3) Where an agreement has been made by virtue of paragraph (1), references in this Order to the Undertaker shall include reference to the Transferee.

(4) Paragraphs (1), (2) and (3) have effect during the continuance of any lease granted and from the operative date of any sale, under the powers conferred by this article.

Power to operate and use the railway

5.—(1) On and after the date the Order comes into force, the Undertaker or Transferee, as the case may be, may operate and use the railway as a system, or part of a system, of transport for the carriage of passengers.

(2) The Undertaker may demand, take and recover or waive such changes for carrying passengers on the railway or for any services or facilities provided in connection with the operation of the railway, as it thinks fit.

(3) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn, nac mewn unrhyw ddeddfiad a gymhwysir gan y Gorchymyn hwn, yn lleihau effaith nac yn effeithio ar weithrediad Rhan 1 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993(**1**).

Pŵer symud

6.—(1) Yn ychwanegol at ddarpariaethau erthygl 9 o'r Gorchymyn Gwreiddiol ac yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), caiff y pŵer symud sydd i'w ddefnyddio ar y rheilffordd gynnwys batri trydan neu unrhyw bŵer symud arall o'r fath y caiff y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ei gymeradwyo yn ysgrifenedig.

(2) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi defnyddio pŵer trydan fel pŵer symud ar y rheilffordd oni ddaw'r pŵer hwnnw o fatris storio neu o ffynhonnell gynhyrchu a gynhwysir yn gyfan gwbl yn y peiriannau a'r cerbydau ac a gludir ynddynt.

(3) Os defnyddir pŵer trydan fel pŵer symud ar y rheilffyrdd, rhaid peidio â defnyddio'r pŵer trydan hwnnw mewn modd a fydd yn peri, neu sy'n debygol o beri, unrhyw ymyrraeth â chyfarpar cyfathrebu electronig, os oes cyfarpar o'r fath, neu wrth ddefnyddio'r cyfarpar hwnnw.

(3) Nothing in this Order, or in any enactment applied by this Order, prejudices or affects the operation of Part 1 of the Railways Act 1993(**1**).

Motive power

6.—(1) In addition to the provisions of article 9 of the Original Order and subject to paragraphs (2) and (3), the motive to be used on the railway may include electric-battery or such other motive power as the Office of Rail and Road may in writing approve.

(2) Nothing in this Order authorises the use of electrical power as motive power on the railway unless this power is obtained from storage batteries or from a source of generation entirely contained in, and along with the engines and carriages.

(3) If electrical power is used as motive power on the railways, the electrical power must not be used in such as way as to cause or be likely to cause any interference with electronic communications apparatus, if any, or with the use of that apparatus.

Rebecca Evans

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
27 Mai 2025

Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
27 May 2025

©℗Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 1993 p. 43.

(**1**) 1993 c. 43.

ISBN 978-0-348-39693-5

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/623